THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES

# CYLCHLYTHYR

8fed IONAWR 2021

---



## Diweddariad Covid-19 Pwysig gan Lywodraeth Cymru

Annwyl Roeni a Gofalwyr,

Fel y gwyddoch eisoes mae'n siŵr, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg Kirsty Williams y bore 'ma yr **ymestynnir y cyfnod o ddysgu ar-lein i bob ysgol a choleg yng Nghymru**. Bydd hyn yn golygu bod y penderfyniadau ar ysgolion a cholegau'n unol ag amserlen adolygiad tair wythnosol Llywodraeth Cymru. Bydd y Prifweinidog Mark Drakeford yn cadarnhau hyn yn ei friffio'n ddiweddarach heddiw.

Gellir gweld cyhoeddiad llawn y Gweinidog Addysg yma: www.facebook.com/welshgovernment/videos/1803985833091375

Mae hyn yn golygu y bydd disgyblion Ysgol Calon Cymru yn parhau i ddysgu o bell hyd Ddydd Gwener, 29ain Ionawr, sef dyddiad adolygiad nesaf y sefyllfa gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, y dyddiad cynharaf posibl i ddychwelyd i'r campws yw Dydd Llun, 1af Chwefror, er dynododd y Gweinidog Addysg bod ymestyniad arall yn bur debygol fel y mae pethau ar y funud. Pe cyhoeddir ymestyniad pellach, byddai hyn yn golygu y byddai'r disgyblion yn gweithio o'r cartref hyd hanner tymor mis Chwefror.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gan blant bregus a phlant gweithwyr hanfodol fynediad i ddarpariaeth ar y safle, yn ogystal â dysgwyr sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau hanfodol. Os ydych yn riant neu ofalwr disgybl Ysgol Calon Cymru ym Mlynyddoedd 7 neu 8 ac rydych wedi eich dosbarthu fel gweithiwr hanfodol a fyddech gystal â chymryd eiliad i gwblhau ein ffurflen bwcio darpariaeth argyfwng yn yr ysgol os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

Ar gyfer y rheiny ohonoch â phlant mewn blynyddoedd arholiadau, mae Cymhwyster Cymru heddiw wedi canslo ffenest asesu mewnol y gwanwyn (oedd rhwng 22il Chwefror a 23ain Ebrill) ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch. Y prynhawn 'ma, mae'r Arweinwyr Cynnydd wedi ysgrifennu at ddisgyblion Blwynyddoedd 10, 11, 12 a 13 i roi gwybod iddynt am y datblygiad hwn, a'u sicrhau bod gan yr ysgol gynlluniau mewn grym i sicrhau y byddant yn dal i ennill y graddau yr haeddant eleni.

Gallaf eich sicrhau y bydd pawb yn Ysgol Calon Cymru yn parhau i wneud ein gorau glas ar gyfer ein disgyblion yn ystod y cyfnod hwn, ac addasu at y sefyllfa newidiol a pharatoi ar gyfer cyhoeddiadau pellach. Mae llawer ohonom yn rieni neu ofalwyr ein hunain, ac rydym yn gwerthfawrogi'r heriau a ddaw yn sgil y cyhoeddiad newydd hwn. Rwyf am i chi wybod ein bod yma i'ch cefnogi os oes angen, cofiwch gysylltu â ni unrhyw bryd: www.ysgolcalon.cymru/contact

Cofion Cynnes,





Dr. Richard Jones
Pennaeth, Ysgol Calon Cymru